## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

### Adolygiad Cymunedol 2025

**Mae'r Cyngor yn adolygu ardaloedd cymunedol a threfniadau etholiadol cymunedol yn y Fwrdeistref Sirol.**

Nod yr adolygiad yw sicrhau bod y trefniadau etholiadol ar gyfer pob cyngor tref neu gymuned yn darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Mae adolygu'r ardaloedd cymunedol yn cynnwys cynigion ar gyfer newid ffiniau rhwng ardaloedd y cynghorau cymuned, cyfuno dwy neu fwy o'r ardaloedd hyn, neu rannu ardal cyngor cymuned bresennol yn ddwy neu fwy.

Mae adolygu trefniadau etholiadol cymunedol yn cynnwys cynigion i adolygu ffiniau'r wardiau o fewn ardal cyngor cymuned, wardio ardaloedd cyngor cymuned nad oeddent yn ward o'r blaen, a dad-wardio ardaloedd cyngor cymuned sydd yn wardiau ar hyn o bryd, a newid nifer y cynghorwyr.

Cyn llunio cynigion drafft, mae'r Cyngor yn gwahodd pobl i roi eu sylwadau.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor lle cewch hefyd ofyn am ffurflen sylwadau neu ei lawrlwytho.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Leanne Davies, Swyddog Etholiadol, ar (01492) 576052.

Dylech gyflwyno unrhyw sylwadau cyn dydd Gwener, 11 Gorffennaf 2025 drwy e-bost i etholiadol@conwy.gov.uk neu drwy lythyr i:

Y Swyddfa Gwasanaethau Etholiadol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
PO Box 1
Bae Colwyn
LL29 0GG

## CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL

### Community Review 2025

**The Council is currently reviewing community areas and community electoral arrangements in the County Borough.**

The review aims to ensure the electoral arrangements for each town or community council provide effective and convenient local government.

A review of community areas includes proposals for alterations of boundaries between community council areas, amalgamating two or more community council areas into one, or separating an existing community council area into two or more.

A review of community electoral arrangements includes proposals to review ward boundaries within a community council area, the warding of a previously unwarded community council area, the de-warding of a community council area currently separated into wards and changes to councillor numbers.

Before formulating draft proposals, the Council is inviting people to submit comments.

Information is available on the Council's website, where you can also request or download a submissions form.

For more information contact Leanne Davies, Electoral Officer on (01492) 576052.

Representations should be made no later than Friday, 11 July 2025 by email to electoral@conwy.gov.uk or in writing to:

Electoral Services Office
Conwy County Borough Council
PO Box 1
Colwyn Bay
LL29 0GG